

Tudalen gynnwys:

- Cynllun gwers.....2
- Adnoddau:
 - Pŵerpwynt..... 3-20
 - Disiau poced.....21
- Adlewyrchiad.....22-23
- Cyfeiriadau.....24

Cynllun Gwers

Blwyddyn: 3	Maes Dysgu a Phrofiad: ieithoedd, llythrennedd, a chyfathrebu.	Nod y wers: I ddysgu sut i ateb gwestiynnau “oes...gyda ti?” yn gywir.
Gwybodaeth flaenorol: Er bod y plant mewn ysgol saesneg, roedd gan y dysgwyr rhai gwybodaeth flaenorol o derminoleg teulu ac anifeiliaid.	Geirfa allweddol: - Oes...gyda ti? - Oes mae...gyda fi. - Nac oes, does dim...gyda fi.	Gweithgareddau: Bydd tri gweithgaredd i gwblhau: 1. Chwarae chwap: bydd cwestiwn ar y bwrdd gwyn, fel “oes ci gyda ti?”, gyda’r atebion “oes” neu “nac oes”. Rhaid i’r disgybl chwapio’r ateb cywir a dweud yr ateb.
Adnoddau: - Dis poced - Pêl - Gwasgwr pryfaid - Pŵerpowynt	Ffocws iaith: I adnabod sut i greu/ateb cwestiwn gan ddefnyddio’r patrwm brawddeg “oes...gyda ti?”. Adnabod terminoleg aelodau teulu ac anifeiliaid anwes i ateb gwestiynnau.	2. Ateb/gofyn cwestiynnau gyda dis poced: bydd lluniau o anifeiliaid anwes, neu cwestiynnau am aelodau teulu. Rhaid rollo’r dis ac ateb beth mae’n glanio ar. 3. Pêl poeth: mae’r person cyntaf gyda’r phêl yn gofyn cwestiwn, wedyn maen nhw’n pasio’r pêl i’r person nesaf i ateb y cwestiwn. Tocyn ymadael ar y diwedd o’r wers, rhaid ysgrifennu cwestiwn “oes...gyda ti?” ac ateb y cwestiwn.





Nod y wers:




I ddysgu sut i ateb cwestiynnau gan ddefnyddio'r
patrwm brawddeg "oes...gyda ti?".





Oes...gyda ti?




Y prif reol

Os ydy'r cwestiwn yn dechrau gyda "oes", bydd yr ateb bob amser yn dechrau gyda'r naill neu llall...

OES

NAC OES



Er enghraifft



Oes ci gyda ti?


Oes, mae ci gyda fi.






Oes chwaer gyda ti?

Nac oes, does dim
chwaer gyda fi.





teulu

mam

modryb

tad

ewythr


chwaer

tad-cu

brawd

mam-gu

cefnither



anifeiliaid anwes

ci

ceffyl

cath

bochdew


pysgod


madfall

aderyn

neidr

cwningen






Ymarfer

Oes cath gyda ti?


Oes/nac oes



Ymarfer

Oes ci gyda ti?

Oes/nac oes



Ymarfer

Oes brawd gyda ti?

Oes/nac oes



Pasio'r bêl

Nod y gêm:

Bydd y person cyntaf sydd â'r bêl yn gofyn cwestiwn gan ddefnyddio'r patrwm "oes...gyda ti?".

Ar ôl gofyn cwestiwn, pasio'r bêl i berson yn y cylch i ateb y cwestiwn.



disiau poced

Nod y gêm:

Yn y dis, mae cwestiynau neu luniau. Os ydych chi'n rholio'r dis a glanio ar gwestiwn, rhaid ateb y cwestiwn. Os ydych chi'n glanio ar lun, rhaid gofyn person cwestiwn gan ddefnyddio "oes...gyda ti?" a'r eitem (oes cath gyda ti?).



chwarae chwap

Nod y gêm:

Bydd cwestiwn ar y bwrdd gwyn gyda dau opsiwn am atebion. Rhaid i chi chwasio'r ateb cywir.



Oes brawd gyda ti?

Oes, mae brawd
gyda fi.

Nac oes, does dim
brawd gyda fi.



Oes aderyn yda ti?

Oes, mae aderyn
gyda fi.

Nac oes, does dim
aderyn gyda fi.



Oes pysgod gyda ti?

Oes, mae pysgod
gyda fi.


Nac oes, does dim
pysgod gyda fi.



Oes ewythr gyda ti?

Oes, mae ewythr
gyda fi.

Nac oes, does dim
ewythr gyda fi.



Tocyn ymadael



Adlewyrchiad

Fe wnes i ddysgu gwers Cymraeg i flwyddyn 3 a chanolbwyntiais ar y patrwm cwestiwn “oes...gyda ti?”. Cyflwynais eirfa newydd yn ymwneud â’r teulu (e.e., chwaer, brawd) ac anifeiliaid anwes (e.e., cath, aderyn). Nod y wers oedd i ddisgyblion allu gofyn ac ateb cwestiynau gan ddefnyddio’r strwythur “oes...gyda ti?” ac ymateb gyda “oes, mae...gyda fi” neu “nac oes, does dim...gyda fi”. Roedd hyn yn cysylltu gyda Chwricwlwm i Gymru ac yn cefnogi cynnydd yn y Gymraeg llafar a strwythur brawddegau (Llywodraeth Cymru, 2017. t.7).

Dechreuais y wers drwy ddefnyddio technegau drilio a chwestiynu i gyflwyno’r eirfa. Roedd hyn yn helpu i fewnoli’r eirfa a’r strwythur brawddeg. Canolbwyntiais ar ynganiad cywir ac annog ymatebion llawn o’r cychwyn. Felly yn cysylltu gyda’r safonau proffesiynol o ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob dysgwr (Llywodraeth Cymru, 2017. t.25).

I gefnogi’r dysgu, tro'r disgyblion rhwng tri gweithgaredd ar ffurf carwselau. Yn gyntaf oedd chwarae chwap. Dangosais gwestiwn fel “oes cath gyda ti?” ar y bwrdd a chystadlodd y disgyblion i daro “oes” neu “nac oes” cyn dweud eu hateb yn uchel. Yr ail weithgaredd oedd defnyddio dis ciw boced, wedi’u llenwi â chwestiynau (e.e., oes tad-cu gyda ti?) neu ddelweddau o anifeiliaid anwes. Roedd y disgyblion yn ymarfer gofyn ac ateb cwestiynau yn Gymraeg. Y trydydd gweithgaredd oedd pasio’r bêl, lle dechreuodd y disgyblion enwi geirfa a oeddent wedi dysgu pan gafodd y bêl ei thaflu atynt, cyn symud ymlaen i ofyn cwestiwn a phasio’r bêl i rywun arall i’w hateb. Roedd y gweithgareddau hyn yn annog siarad a gwrando mewn amgylchedd hwyliog a dibwys. Trwy greu gweithgareddau gwahaniaethol, mae’n dangos pwysigrwydd cynllunio ar gyfer pob anghenion (Llywodraeth Cymru, 2017. t.29).

Roedd y disgyblion yn frwdfrydig trwy gydol y wers, ac roedd y mwyafrif yn gallu defnyddio'r patrwm brawddeg erbyn y diwedd. Caniataodd y carwselau wahaniaethu, gan gynnig cefnogaeth pan cylchu'r grwpiau. Fodd bynnag, roedd y gêm chwap yn mynnu fy sylw llawn gan fod angen i mi reoli'r sleidiau a monitor y gêm. Golygydd hyn fod un grŵp weithiau heb gefnogaeth athro gan fod y CAF yn cefnogi grŵp arall. Ceisiais gyfleu'r rôl arddangoswr gêm chwap i ddisgybl, ond ni weithiodd hyn oherwydd eu diffyg profiad gyda'r dechnoleg. Yn y dyfodol, byddwn yn gofyn i'r CA symud rhwng grwpiau i sicrhau rydw i'n cydweithio gyda staff (Llywodraeth Cymru, 2017. t.43).

Gorffennodd y wers gyda thocyn ymadael lle ysgrifennodd y disgyblion rywbeth maen nhw wedi dysgu yn y wers. Anogasant nhw i lunio cwestiwn ac ateb gan ddefnyddio'r patrwm brawddeg. Wedyn fe wnaethon nhw ffurfio llinell fel trênn a chyflwyno eu tocyn i fynd i chwarae. Roedd hyn yn atgyfnerthu'r patrwm mewn ffordd hwyliog a choffadwy.

Cyfeiriadau

Llywodraeth Cymru (2017). *Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu a arweinyddiaeth. t.7, 25, 29, 43. Ar gael at [professional-standards-for-teaching-and-leadership-interactive-pdf-for-pc.pdf](#)*